



**Adroddiad ar**

**Ysgol Tryfan  
Lon Powys  
Bangor  
Gwynedd  
LL57 2TU**

**Dyddiad yr arolygiad: Hydref 2013**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg  
a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

Barn	Yr hyn mae'r farn yn ei olygu
Rhagorol	Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector
Da	Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol
Digonol	Mae cryfderau'n gorbwysu'r meysydd i'w gwella
Anfoddhaol	Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwysu'r cryfderau

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau  
Estyn  
Llys Angor, Heol Keen  
Caerdydd  
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at [cyhoeddiadau@estyn.gov.uk](mailto:cyhoeddiadau@estyn.gov.uk)

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan:  
[www.estyn.gov.uk](http://www.estyn.gov.uk)

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).**

© Hawlfraint y Goron 2013: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 10/12/2013

## Cyd-destun

Ysgol uwchradd ddwyieithog yw Ysgol Tryfan ar gyfer disgyblion 11-18 oed, wedi ei lleoli ym Mangor, Gwynedd. Mae'n un o ddwy ysgol uwchradd yn y ddinas sy'n rhannu'r un dalgylch o ysgolion cynradd.

Mae 524 o ddisgyblion ar y gofrestr, sy'n cynnwys 86 o ddisgyblion yn y chweched dosbarth. Mae gan tua 15% o'r disgyblion yr hawl i brydau ysgol yn ddi-dâl, sydd yn is na'r ffigwr cenedlaethol o 17.7%. Mae 17% o'r disgyblion ar gofrestr anghenion addysgol ychwanegol yr ysgol, gyda thua 2% ar ddatganiad o anghenion addysgol arbennig. Mae'r ffigurau hyn hefyd yn is na'r ffigurau cenedlaethol.

Daw 64% o'r disgyblion o gartrefi lle mae'r Gymraeg yn cael ei siarad ac mae ychydig iawn o'r disgyblion o gefndir ethnig cymysg. Nid oes disgyblion sy'n derbyn cymorth i ddysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.

Mae'r ysgol yn darparu cynllun trochi ieithyddol i ddisgyblion y mae angen cryfhau eu medrau Cymraeg adeg trosglwyddo o'r ysgolion cynradd. Ar hyn o bryd, mae tua thraean o ddisgyblion Blwyddyn 7 yn cyfranogi yn y cynllun, gyda hyn yn parhau â'r patrwm o gynnydd arwyddocaol yn y niferoedd dros y blynyddoedd diwethaf.

Mae'r ysgol yn cydweithio â darparwyr eraill i gynnig arlwy o gyrsiau ar y cyd yng nghyfnod allweddol 4 ac yn y chweched dosbarth fel rhan o gonsortwm ysgolion uwchradd Arfon a'r coleg addysg bellach lleol. Mae cyfran uchel o ddisgyblion y chweched dosbarth yr ysgol yn dilyn o leiaf un o'u cyrsiau mewn darparwr arall.

Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf yn nhymor yr haf 2007.

Mae'r pennaeth presennol yn ei swydd ers Ebrill 2012. Mae gan yr ysgol uwch dîm rheoli newydd, sydd yn awr yn cynnwys y pennaeth, dirprwy bennaeth a thri phennaeth cynorthwyol.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Tryfan yn 2013-2014 yw £4,317. Yr uchafswm fesul disgybl yn ysgolion uwchradd Gwynedd yw £5,249 a'r lleiafswm yw £4,186. Mae Ysgol Tryfan yn y 12fed safle o'r 14 ysgol uwchradd yng Ngwynedd o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

<b>Perfformiad presennol yr ysgol</b>	<b>Da</b>
<b>Rhagolygon gwella'r ysgol</b>	<b>Da</b>

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn dda oherwydd bod:

- perfformiad yn rhan fwyaf y prif ddangosyddion yng nghyfnodau allweddol 3 a 4 yn uwch na'r disgwyliadau o gymharu â pherfformiad ysgolion tebyg ac o ystyried lefelau prydau ysgol di-dâl;
- safonau ymddygiad yn uchel, gyda rhan fwyaf y disgyblion yn meddu ar agweddau cadarnhaol yn y gwersi gan ddangos diddordeb yn eu gwaith a dyfalbarhad;
- presenoldeb disgyblion yn cymharu'n ffafriol dros gyfnod â phresenoldeb mewn ysgolion tebyg;
- yr ysgol yn cynnig ystod briodol o opsiynau yng nghyfnod allweddol 4 a'r chweched dosbarth, gyda chyfran uchel o'r disgyblion yn manteisio ar gyrsiau y mae darparwyr partner yn eu cynnig; a bod
- darpariaeth briodol ar gyfer meithrin ymwybyddiaeth disgyblion o sut i gadw'n iach ac yn heini, gyda'r systemau gofal am les disgyblion yn gryfder yn yr ysgol.

### Rhagolygon gwella

Mae'r rhagolygon gwella yn dda oherwydd bod:

- yr ail-strwythuro diweddar wedi cryfhau cynhwysedd yr uwch dîm rheoli a'i effaith ar agweddau pwysig ar waith yr ysgol;
- arweinyddiaeth wedi arwain at welliannau arwyddocaol yn 2013 mewn sawl dangosydd yng nghyfnod allweddol 4;
- adroddiad hunan arfarnu'r ysgol yn gyffredinol yn cynnig darlun cynhwysfawr ac arfarnol o agweddau ar y ddarpariaeth a safonau cyflawniad;
- cynllun datblygu'r ysgol yn nodi blaenoriaethau priodol ar gyfer gwelliant; a bod
- y corff llywodraethol yn darparu her briodol ac yn cyfrannu'n effeithiol i ddatblygiad strategol yr ysgol.

## Argymhellion

- A1 Gwella cyflawniadau'r grŵp disgyblion sydd â'r hawl i brydau ysgol di-dâl
- A2 Sicrhau bod disgyblion yn defnyddio eu medrau llythrennedd, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu ar y lefel briodol yn gyson yn eu gwaith ar draws y pynciau
- A3 Gwella ansawdd yr addysgu yn lleiafrif y gwersi
- A4 Sicrhau bod ystod o strategaethau asesu effeithiol ar waith yn gyson ar draws y pynciau i helpu disgyblion i wella ansawdd eu gwaith
- A5 Sicrhau bod trefniadau gwella ansawdd yn arwain at welliannau clir yn ansawdd yr addysgu a chyflawniadau disgyblion, ac at bennu targedau gwella heriol yn y cynlluniau datblygu adrannol

### **Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd y ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd yr awdurdod lleol yn monitro cynnydd yr ysgol.

## Prif ganfyddiadau

### Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

Da

#### Safonau: Da

Yng nghyfnod allweddol 4, mae perfformiad yr ysgol yn y dangosyddion sy'n cynnwys Cymraeg neu Saesneg, a mathemateg wedi bod o gwmpas cyfartaleddau'r teulu dros y blynyddoedd diwethaf ac ymhlith y 50% uwch neu'r 25% uchaf o gymharu ag ysgolion tebyg o ran hawl i brydau ysgol di-dâl. Mae perfformiad mewn mathemateg ac yn y dangosydd sy'n cyfeirio at y canran o ddisgyblion sy'n ennill pump neu fwy o gymwysterau sy'n cyfateb i raddau D i G mewn TGAU wedi bod yn is na disgwyliadau dros gyfnod. Fodd bynnag, mae canlyniadau heb eu dilysu 2013 yn dangos patrwm o gynnydd arwyddocaol ar sail perfformiad blynyddoedd blaenorol yn y dangosydd hwn ac mewn sawl dangosydd arall.

Nid oes unrhyw ddisgybl wedi gadael addysg amser llawn orfodol heb o leiaf un cymhwyster dros y pum mlynedd ddiwethaf.

Yng nghyfnod allweddol 3, mae perfformiad yn y dangosydd pynciau craidd wedi gosod yr ysgol ymhlith y 25% uchaf mewn tair o'r pum mlynedd diwethaf. Mae cyflawniadau ar y lefelau uwch yn dda, yn enwedig ar lefel 7 neu uwch.

Mae cyflawniadau'r grŵp disgyblion sydd â'r hawl i dderbyn prydau ysgol di-dâl yn y prif ddangosyddion yng nghyfnodau allweddol 3 a 4 yn arwyddocaol is na'r disgwyl dros gyfnod o ystyried ffigyrau Cymru a'r teulu o ysgolion tebyg.

Yn y chweched dosbarth, mae'r canlyniadau dros gyfnod yn gyffredinol yn cymharu'n ffafriol â ffigyrau'r awdurdod lleol a Chymru.

Yn y gwersi, mae bron yr holl ddisgyblion yn ymroi i ddysgu ac yn gwneud defnydd cynhyrchiol o'u hamser. Maent yn gweithio'n llwyddiannus mewn parau a grwpiau bach ac yn dangos dyfalbarhad. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd priodol yn erbyn nodau'r gwersi.

Yn rhan fwyaf y gwersi, mae disgyblion yn gwrando'n ofalus ar eu hathrawon ac ar gyfraniadau ei gilydd. Maent yn dangos parodrwydd i gynnig ymatebion i gwestiynau ac yn cymryd eu tro wrth gymryd rhan mewn trafodaeth. Yn llawer o'r gwersi, mae ymatebion y disgyblion yn dangos lefel dda o hyder ar lafar, a'r gallu i gyfleu eu syniadau yn glir. Mae llawer o'r disgyblion yn ymateb mewn brawddegau cyflawn ac yn gwneud cynnydd priodol o ran cywirdeb mynegiant ac yn eu defnydd o dermau pynciol. Fodd bynnag, yn lleiafrif y gwersi ar draws y cwricwlwm, ni wna'r disgyblion ddigon o ddefnydd o fedrau llafar i atgyfnerthu eu dysgu. Yng nghyfnod allweddol 4, mae disgyblion o allu uwch yn medru rhoi amlinelliad estynedig ar lafar yn y Gymraeg wrth rannu eu syniadau yn dilyn gwaith grŵp, gan ddangos lefelau uchel o huodledd a chywirdeb yn y cywair priodol.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd priodol yn eu medrau darllen yn y Gymraeg a'r Saesneg. Mae llawer o'r disgyblion sy'n derbyn cymorth ychwanegol ar

gyfer medrau darllen gwan yn gwneud cynnydd arwyddocaol o ran cynyddu eu hoedrannau darllen. Mae disgyblion yn defnyddio eu medrau darllen yn effeithiol fel rhan o'u gwaith mewn pynciau eraill drwy chwilio am wybodaeth a'i chyflwyno i gwblhau aseiniadau. Serch hynny, mae anwastadrwydd yn y cynnydd y mae disgyblion o allu uwch, yn enwedig, yn ei wneud yn eu gallu i ddefnyddio ystod lawn o fedrau darllen fel rhan o'u gwaith mewn pynciau eraill.

Mae disgyblion yn gwneud cynnydd arwyddocaol yn datblygu eu medrau ysgrifennu yn y gwersi iaith, yn enwedig yn y Gymraeg. Maent yn ysgrifennu i ystod o bwrpasau ac yn dangos ymwybyddiaeth gadarn o ofynion y gwahanol ffurfiau ysgrifennu. Maent yn medru cynhyrchu darnau sy'n ennyn diddordeb a chyflwyno eu syniadau yn fedrus. Yn eu gwaith mewn pynciau eraill, gwna llawer o'r disgyblion ddefnydd priodol o dermau pynciol. Er hynny, mae gormod o wallau sillafu ac atalnodi yng ngwaith lleiafrif y disgyblion ac nid yw'r disgyblion yn gwneud digon o ddefnydd o'u medrau ysgrifennu estynedig mewn ychydig o bynciau.

Mae'r disgyblion yn datblygu eu dealltwriaeth o gysyniadau a themau rhifedd ac yn eu defnyddio yn briodol i ddatrys problemau a dehongli patrymau yn eu gwaith ar draws y cwricwlwm. Fodd bynnag, nid yw disgyblion yn gwneud defnydd cyson o ystod lawn o fedrau rhifedd yn eu gwaith mewn pynciau eraill. Mae disgyblion sy'n derbyn cymorth ychwanegol ar gyfer medrau rhifedd gwan yn gwneud cynnydd priodol.

Mae disgyblion sy'n derbyn cymorth ychwanegol ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd priodol yn erbyn targedau personol eu cynlluniau addysg unigol. Fodd bynnag, yn nosbarthiadau'r prif lif, nid yw'r disgyblion hyn, yn ogystal â disgyblion o allu uwch, yn cyflawni cystal ag y gallent mewn lleiafrif o wersi.

Mae cynnydd disgyblion yn y Gymraeg yn gryfder yn yr ysgol, gyda disgyblion yn defnyddio medrau trawsieithu yn effeithiol. Mae'r niferoedd cynyddol o'r disgyblion sy'n cyfranogi yn y ddarpariaeth drochi yn y Gymraeg yn gwneud cynnydd clir.

## **Lles: Da**

Mae bron pob disgybl yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn deall pwysigrwydd dull iach o fyw, yn cynnwys sut i fwyta ac yfed yn iach. Mae niferoedd uchel yn cymryd rhan mewn gweithgareddau addysg gorfforol a chwaraeon yn rheolaidd.

Mae safonau ymddygiad yn uchel yn yr ysgol. Mae disgyblion yn gwrtais ac yn dangos parch tuag at eu cyfoedion, oedolion ac ymwelwyr. Yn eu gwersi, mae bron pob disgybl yn meddu ar agweddau aeddfed at ddysgu.

Mae presenoldeb yr ysgol yn naill ai'r 50% uwch neu'r 25% uchaf mewn pedair o'r pum mlynedd ddiwethaf o gymharu ag ysgolion sydd â lefelau tebyg o ran prydau ysgol di-dâl. Dros y pum mlynedd ddiwethaf, mae lefelau gwaharddiadau parhaol a gwaharddiadau dros dro'r ysgol wedi bod yn isel.

Mae cyngor yr ysgol yn cyfrannu'n bwrpasol at benderfyniadau ar nifer o agweddau o fywyd ysgol. Mae'r cyngor yn trafod materion i wella amgylchfyd yr ysgol ac wedi

gweithredu ar sail y penderfyniadau. Yn ogystal, mae'r cyngor yn cyfrannu at welliannau o ran iechyd a lles disgyblion, gan gynnwys ail ddrafftio'r polisi bwlio er mwyn sicrhau ieithwedd briodol i'w cyd-ddisgyblion a pherchnogaeth ar y polisi. Mae'r cyngor wedi gwneud cyfraniad buddiol at lunio polisi addysgu'r ysgol. Yn lleiafrif y pynciau, mae barn y disgyblion wedi cyfrannu yn uniongyrchol at weithredu newidiadau cwricwlaidd.

Mae disgyblion yr ysgol yn gwneud cyfraniad gwerthfawr i'w cymuned drwy amrywiol weithgareddau gwirfoddol, diwylliannol a chwaraeon, ac yn gwneud cyfraniadau sylweddol i elusennau lleol a chenedlaethol. Maent yn meithrin y medrau angenrheidiol sydd eu hangen arnynt i symud i'r byd gwaith yn llwyddiannus.

<b>Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?</b>	<b>Da</b>
--	-----------

### **Profiadau dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn darparu cwricwlwm eang a chytbwys. Yng nghyfnod allweddol 4 ac yn y chweched dosbarth, mae'r arlwy gynhwysfawr o gyrsiau cyffredinol a galwedigaethol yn caniatáu i'r disgyblion ennill amrediad o gymwysterau ar lefelau gwahanol. Mae'r ysgol wedi cyflwyno cymhwyster Bagloriaeth Cymru yn effeithiol yng nghyfnod allweddol 4 i bob disgybl, gyda hyn wedi galluogi i ganran sylweddol o'r disgyblion ennill cymhwyster am y tro cyntaf yn haf 2013, a llawer ohonynt ar y lefel ganolradd.

Mae'r ysgol yn darparu ystod eang o weithgareddau allgyrsiol gwerthfawr i ddisgyblion, yn enwedig mewn addysg gorfforol a cherddoriaeth. Mae'r 'Clwb C' sy'n cael ei arwain gan ddisgyblion y chweched dosbarth yn fenter sy'n hyrwyddo yn llwyddiannus ddefnydd cymdeithasol disgyblion ieuengaf yr ysgol o'r iaith Gymraeg.

Cynllunio'r ysgol yn effeithiol ar gyfer sicrhau bod cyfleoedd addas i ddisgyblion ddatblygu eu medrau yng nghyfnod allweddol 4 a'r chweched dosbarth. Yn ddiweddar, cyflwynwyd nifer o strategaethau newydd er mwyn gwella medrau llythrennedd yng nghyfnod allweddol 3, yn unol â gofynion y fframwaith medrau cenedlaethol. Fodd bynnag, nid yw'r cynllunio ar gyfer y medrau yn ddigon manwl i sicrhau bod disgyblion yn datblygu ystod lawn o fedrau llythrennedd, ac yn enwedig medrau rhif a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu, ar y lefel briodol yn gyson yn eu gwaith ar draws y pynciau.

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer nodi disgyblion â medrau iaith a rhifedd gwan, ac mae'n sicrhau cymorth ychwanegol effeithiol ar eu cyfer.

Mae'r ysgol yn llwyddo i fagu lefel uchel o ymwybyddiaeth o Gymreictod ac agweddau cadarnhaol at y Gymraeg ymhlith ei disgyblion. Mae llwyddiant y cynllun trochi ieithyddol i'r nifer cynyddol o ddisgyblion y mae angen cryfhau eu medrau yn y Gymraeg adeg trosglwyddo o'r ysgolion cynradd yn gryfder arwyddocaol.

Mae prosiectau megis 'Tegfan Tryfan', gwobr aur ysgolion gwyrdd a gweithgareddau cymunedol amrywiol eraill yn cyfrannu'n briodol at ddealltwriaeth disgyblion o'r



amgylchedd a datblygiad cynaliadwy. Nid yw'r ddarpariaeth ar gyfer meithrin dealltwriaeth o ddinasyddiaeth fyd-eang wedi ei datblygu i'r un graddau.

### **Addysgu: Digonol**

Ym mron i bob gwrs, mae athrawon yn sicrhau amgylchedd dysgu priodol. Mae llawer o'r athrawon yn cynllunio dilyniant priodol o weithgareddau dysgu sy'n cynnal diddordeb a chymhelliant y disgyblion. Fodd bynnag, mae anwastadrwydd o ran diwallu anghenion disgyblion o wahanol allu yn y gwrsi ac yn y defnydd o ystod lawn o strategaethau asesu.

Mae athrawon yn esbonio'r tasgau yn glir ac yn cylchynu'n briodol i ddarparu cymorth pan fo'r disgyblion yn gweithio yn annibynnol neu mewn grwpiau. Mae cydadwaith effeithiol rhwng yr athrawon a'r disgyblion yn nodwedd gyson mewn gwrsi, gyda chyfleoedd rheolaidd i ddisgyblion weithio mewn parau a grwpiau bach.

Yn llawer o'r gwrsi, mae athrawon yn holi cwestiynau priodol i'r disgyblion sy'n eu helpu i ddeall y gwaith a gwneud cynnydd. Yn yr ychydig o wersi lle mae'r addysgu yn rhagorol, mae gan yr athrawon ddisgwyliadau uchel a strategaethau clir sy'n galluogi disgyblion i ddefnyddio a datblygu medrau llafar mwy heriol. Fodd bynnag, yn lleiafrif y gwrsi, nid oes digon o gyfleoedd i'r disgyblion ddefnyddio ac ymarfer eu medrau llafar i ymateb yn fwy estynedig i sicrhau gwell dealltwriaeth o'r gwaith. Hefyd yn lleiafrif y gwrsi, nid yw athrawon yn gwneud digon o ddefnydd o'r wybodaeth am anghenion penodol grwpiau o ddisgyblion er mwyn cynllunio tasgau gwahanol i'w galluogi i wneud cynnydd llawn ar y lefel briodol.

Mae'r ysgol wedi datblygu system effeithiol ar gyfer olrhain cynnydd disgyblion. Mae safonau cyrhaeddiad pob disgybl yn cael ei dracio yn erbyn y targedau personol gydag ymyrraeth effeithiol i roi cynhaliaeth ychwanegol i unigolion a grwpiau penodol. Mae'r ysgol hefyd yn monitro perfformiad ei disgyblion yn ofalus yn erbyn dangosyddion cenedlaethol.

Mae llawer o'r athrawon yn rhoi adborth llafar buddiol i'r disgyblion mewn gwrsi er mwyn eu helpu i wella eu dealltwriaeth o'r gwaith. Wrth farcio, mae lleiafrif o athrawon yn nodi sylwadau treiddgar ar waith disgyblion sy'n eu cynorthwyo i ddeall yr hyn sydd angen iddynt ei wneud i wella. Serch hynny, mae gormod o amrywiaeth o ran manyldeb y cyngor y mae athrawon yn ei roi ac o ran disgyblion yn dychwelyd at waith wedi ei farcio i well cywirdeb ac ansawdd y cynnwys. Mae'r cyfleoedd i ddisgyblion asesu eu gwaith eu hunain a gwaith eu cyfoedion yn effeithiol ar draws y pynciau yn anghyson.

Mae'r adroddiadau i rieni ar gynnydd eu plant yn cynnwys sylwadau defnyddiol a thargedau clir ar sut i wella ym mwyafrif y pynciau.

### **Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ysgol yn hyrwyddo iechyd a lles y disgyblion yn llwyddiannus iawn trwy'r cwricwlwm, gweithgareddau allgyrsiol a'r rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol. Mae cyfranogiad disgyblion mewn gweithgareddau allgyrsiol a'r gwobrau ysgolion

Iach yn hyrwyddo byw yn iach a buddion deiet iach. Mae'r ysgol wedi cymryd camau priodol i fodloni'r gofynion newydd ar gyfer bwyta ac yfed yn iach.

Mae'r ysgol yn gweithredu trefn effeithiol o ymateb graddedig ar gyfer disgyblion sydd â phatrymau phresenoldeb sy'n destun pryder. Mae trefniadau'r ysgol mewn perthynas â disgyblion sy'n cael eu hadleoli o ysgolion eraill oherwydd problemau ymddygiad yn hynod o effeithiol. Mae gan yr ysgol hefyd systemau gwrth-fwlio effeithiol, sydd yn cynnwys cyfraniad gwerthfawr gan y disgyblion eu hunain.

Darpara'r ysgol gyfleoedd priodol i ddisgyblion fyfyrion am faterion ysbrydol, moesol a chymdeithasol yn dilyn gwasanaethau ysgol ac mewn sesiynau myfyrdod.

Adeg dewis cyrsiau ar gyfer cyfnod allweddol 4 a'r chweched dosbarth, mae'r disgyblion yn derbyn cyngor priodol sydd yn eu helpu i wneud dewisiadau addas. Mae'r ysgol yn llwyddo'n dda i sicrhau bod disgyblion yn manteisio'n llawn ar y cyrsiau sy'n cael eu cynnig mewn darparwyr eraill i fodloni eu dyheadau.

Mae gan yr ysgol systemau priodol ar gyfer adnabod yn gynnar y disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae'r cynlluniau addysg unigol yn pennu targedau addas ac fe gânt eu hadolygu yn rheolaidd, ac mae cyfathrebu effeithiol gyda'r rhieni. Caiff disgyblion ag anawsterau dysgu ychwanegol gynhafiaeth briodol gan athrawon arbenigol a chymorthyddion dysgu.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

### **Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned gynhwysol sy'n galluogi'r disgyblion i gyfranogi yn llawn yn ei bywyd a'i gwaith a meithrin gwerthoedd ac ymagweddau cadarnhaol. Mae'r ddarpariaeth yn yr 'Hafan' yn gwneud cyfraniad arwyddocaol i sicrhau bod holl ddisgyblion yr ysgol yn cyflawni eu potensial, beth bynnag fo eu hanghenion unigol. Mae'r disgyblion yn chwarae rhan weithredol o ran sicrhau cydraddoldeb a chyfle cyfartal i bawb, gyda'r disgyblion hŷn yn cyfrannu'n ymarferol at yr amgylchedd dysgu drwy eu cyfrifoldebau am les y disgyblion iau.

Mae'r adeiladau yn darparu amgylchedd priodol ar gyfer dysgu, gyda'r ysgol wedi buddsoddi'n ddiweddar i wella'r amgylchedd ffisegol. Mae arddangosfeydd o lwyddiannau, gwaith a phrofiadau'r disgyblion yn yr ystafelloedd dosbarth ac yng nghoridorau'r ysgol yn cyfrannu'n briodol at yr amgylchedd dysgu. Mae cyfleusterau'r ystafelloedd newid a'r toiledau o safon dderbyniol. Caiff adeiladau a thir yr ysgol eu cynnal a'u cadw'n briodol.

Mae cyflenwadau priodol o adnoddau a chyfarpar ar gyfer dysgu.

<b>Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?</b>	<b>Da</b>
--	-----------

### **Arweinyddiaeth: Da**

Mae'r pennaeth yn arwain yr ysgol yn effeithiol ac wedi pennu blaenoriaethau clir ar gyfer datblygiad yr ysgol a chodi safonau. Mae effaith yr arweinyddiaeth i'w gweld yn glir yn y gwelliant amlwg ar y ddarpariaeth a safonau mewn cyfnod cymharol fyr, yn enwedig mewn sawl dangosydd perfformiad yng nghyfnod allweddol 4. Mae'r uwch dîm rheoli newydd yn gweithredu'n effeithiol ac yn cyfleu disgwyliadau uchel i'w cydweithwyr yn llwyddiannus. Mae arweinwyr yn talu sylw dyladwy i flaenoriaethau lleol a chenedlaethol wrth fynd ati i sicrhau gwelliannau, yn enwedig ym meysydd llythrennedd a'r cwricwlwm 14 – 19.

Mae systemau gweinyddol a rheolaethol yr ysgol yn effeithiol, gyda gweithdrefnau trefnus yn llywio ei bywyd a'i gwaith. Mae swydd ddisgrifiadau'r athrawon yn berthnasol i'w cyfrifoldebau ac maent yn cael eu diweddarau yn ôl yr angen mewn ymateb i flaenoriaethau newydd yr ysgol. Mae'r staff yn deall ac yn gweithredu eu cyfrifoldebau yn effeithiol.

Mae rhaglen ysgol-gyfan gynhwysfawr o gyfarfodydd athrawon a rheolwyr i drafod eu gwaith dros y flwyddyn ysgol. Mae materion sydd yn cael eu trafod gan yr uwch dîm rheoli yn bwydo trafodaethau rheolwyr canol ac athrawon eraill yn briodol. Ar draws yr ysgol, mae rheolwyr yn gwneud defnydd effeithiol o ddata i ddadansoddi perfformiad a chyflawniadau disgyblion.

Mae gan yr ysgol drefniadau effeithiol ar gyfer sicrhau atebolrwydd rheolwyr canol a gwaith yr adrannau pwnc. Mae agenda a chofnodion ffurfiol ar gyfer y cyfarfodydd rheolaidd rhwng y rheolwyr cyswllt â'u hadrannau yn sicrhau cysondeb yn y materion sy'n cael eu trafod, gyda ffocws clir ar wella ansawdd a deilliannau. Mae hyn yn arwain yn briodol at nodi pwyntiau gweithredu cytunedig, gyda threfniadau addas ar gyfer adolygu cynnydd yn mynd i'r afael â'r materion.

Mae gan y llywodraethwyr wybodaeth drylwyr am berfformiad yr ysgol o ran canlyniadau a dangosyddion perfformiad ac maent yn cefnogi a herio'r ysgol yn effeithiol. Mae'r corff llywodraethol yn pennu disgwyliadau uchel ac yn rhoi cyfeiriad clir i waith yr ysgol.

### **Gwella ansawdd: Digonol**

Mae'r ysgol yn defnyddio ystod o ffynonellau priodol i gasglu gwybodaeth ar gyfer hunan arfarnu a chynllunio ar gyfer gwelliant. Mae prosesau hunan arfarnu yn rhan ganolog o fywyd a gwaith yr ysgol ac mae'r adroddiad hunan arfarnu ysgol-gyfan yn ddogfen dreiddgar, sy'n cynnwys arfarniad teg o nifer o agweddau ar ei gwaith. Eto i gyd, mae mwy o amrywiaeth yn ansawdd yr addysgu ac asesu na'r hyn sy'n cael ei nodi gan yr ysgol yn ei hunan arfarniad. Mae'r arfarniadau ar ansawdd yr addysgu yn lleiafrif o'r adroddiadau hunan arfarnu adrannol yn rhy hael.

Mae adroddiad hunan arfarnu'r ysgol yn seiliedig ar amrediad da o dystiolaeth gan gynnwys dadansoddiad data, dogfennau megis polisïau a chynlluniau gwaith

cwricwlaidd, ymateb disgyblion i holiaduron a chofnodion o arsylwadau gwersi. Mae'r rhaglen gynhwysfawr o arsylwadau gwersi yn canolbwyntio'n glir ar safonau disgyblion, ansawdd yr addysgu ac asesu. Er hynny, nid yw rheolwyr yn rhoi digon o ystyriaeth i gynnydd disgyblion mewn gwersi fel modd o fesur pa mor effeithiol yw'r addysgu. Gwna'r ysgol ddefnydd priodol o safbwyntiau'r cyngor ysgol, cynrychiolwyr dosbarth a holiaduron amrywiol i ganfod barn y disgyblion. Fodd bynnag, nid oes defnydd rheolaidd o holiaduron i ganfod barn rhieni.

Mae rhaglen hunan arfarnu'r ysgol yn pennu cyfnodau penodol ar gyfer archwilio samplau o lyfrau'r disgyblion gan yr uwch dim rheoli a phenaethiaid adrannau. Mae adrannau yn derbyn adroddiadau defnyddiol yn deillio o'r gweithgarwch hwn gan yr uwch dîm rheoli. Mae lleiafrif o adrannau yn cynnal archwiliadau rheolaidd o lyfrau'r disgyblion. Er hyn, nid yw'r trefniadau craffu ar waith yn ddigon trylwyr a chyson ar draws yr ysgol nac yn cyfrannu ddigon at y gwaith o bennu blaenoriaethau gwella.

Mae cyswllt priodol rhwng yr adroddiad hunan arfarnu ysgol gyfan a'r cynllun datblygu ysgol. Mae'r cynllun datblygu ysgol yn nodi blaenoriaethau priodol, yn cynnwys tangyflawniad cymharol disgyblion prydau ysgol di-dâl, gyda ffocws clir ar godi safonau.

Mae lleiafrif o'r cynlluniau datblygu adrannol yn nodi pwyntiau gweithredu priodol o fewn terfynau amser penodol ar ystod o faterion gwella. Er hynny, nid yw'r mwyafrif yn rhoi digon o sylw i faterion pwysig sy'n cysylltu â'r blaenoriaethau ysgol gyfan. Ar y cyfan, nid yw cynlluniau datblygu adrannol yn gwneud digon o ddefnydd o dargedau meintiol i alluogi rheolwyr i fesur effaith y gweithredu ar safonau a chynnydd disgyblion.

### **Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae'r ysgol yn cydweithio'n effeithiol iawn mewn partneriaeth â darparwyr addysgol eraill, yn cynnwys ysgolion uwchradd yr ardal a'r coleg lleol. Trwy'r 'grŵp partneriaeth Arfon', mae'r ysgol yn cynllunio'n strategol i ehangu'r arlwy yn effeithiol. Mae'r trefniadau amserlennu ar y cyd yn golygu bod niferoedd arwyddocaol o'r dysgwyr yn manteisio ar yr opsiynau galwedigaethol cyfrwng Cymraeg. Yn y chweched dosbarth, mae bron i 60% o ddisgyblion wedi dewis dilyn o leiaf un cwrs mewn darparwr arall.

Mae cydweithio effeithiol gyda'r ysgolion partner cynradd er mwyn hwyluso'r cyfnod trosglwyddo i Flwyddyn 7 ac i gynllunio'r ddarpariaeth drochi ieithyddol yng nghyfnod allweddol 3. Mae'r ysgol hefyd yn gweithio'n agos gyda'r ysgolion partner cynradd er mwyn cyd-safoni asesiadau athrawon.

Mae'r ysgol wedi sefydlu partneriaethau effeithiol gyda chyflogwyr, asiantaethau eraill, a sefydliadau perthnasol yn y gymuned sydd yn cefnogi gwaith yr ysgol yn llwyddiannus. Mae hyn yn cyfoethogi profiadau dysgu'r disgyblion ac yn rhoi cyfleoedd effeithiol iddynt ddatblygu eu hyder a gwybodaeth o'r gymuned a materion galwedigaethol.

Mae'r ysgol yn cynnal perthynas agos a chynhyrchiol gyda rhieni trwy sicrhau cyfathrebu rheolaidd a chlr. Mae rhaglen o gyfarfodydd rheolaidd yn cael ei threfnu er mwyn sicrhau cydweithio â'r rhieni, gyda niferoedd da o'r rhieni yn eu mynychu.

### **Rheoli adnoddau: Da**

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer rheoli perfformiad staff, yn cynnwys staff nad ydynt yn athrawon, sy'n perthnasu'n briodol â blaenoriaethau'r ysgol. Mae athrawon wedi derbyn hyfforddiant mewnol defnyddiol ar strategaethau addysgu ac wedi derbyn arweiniad cychwynnol buddiol ar gyfer sicrhau cysondeb yn natblygiad y medrau. Fodd bynnag, nid yw'r trefniadau datblygu staff wedi darparu digon o gyfleoedd i athrawon fanteisio ar gysylltiadau ag ysgolion eraill i gyfnewid syniadau ac elwa ar rannu arfer dda.

Mae'r ysgol yn defnyddio adnoddau yn effeithiol er mwyn sicrhau bod y blaenoriaethau yn y cynllun datblygu ysgol yn cael eu gweithredu. Mae'r pennaeth, gyda chymorth y swyddog gweinyddol, yn cynllunio'r gwariant yn effeithiol ac yn sicrhau bod digon o gyllid ar gael i ariannu bwriadau cynlluniau gwella. Mae panel cyllid y corff llywodraethol yn monitro gwariant yr ysgol yn rheolaidd.

Mae'r cwricwlwm wedi cael ei staffio yn addas. Yn sgil y partneriaethau 14 – 19 â darparwyr eraill, mae'r cwricwlwm eang yng nghyfnod allweddol 4 a'r chweched dosbarth yn gost-effeithiol. Mae'r ysgol wedi ymateb yn briodol i argymhellion yr awdurdod lleol yn dilyn yr archwiliad o'r prif feysydd gwariant ac incwm. Mae'r ysgol hefyd wedi mynd i'r afael yn briodol yn ddiweddar â thanwariant y gyllideb mewn blynyddoedd blaenorol.

Mae'r ysgol yn cynnig gwerth da am arian.

## Atodiad 1

### Sylwadau ar ddata perfformiad

Yng nghyfnod allweddol 3, mae perfformiad yr ysgol yn y dangosydd pynciau craidd yn gyson yn uwch na chyfartaleddau'r teulu a Chymru, ac yn arwyddocaol uwch na'r disgwyliadau. Mae cyflawniadau ar y lefel ddisgwyliedig o gwmpas neu'n uwch na chyfartaledd y teulu yn y pynciau craidd yn unigol. Fodd bynnag, mae canran y disgyblion sy'n cyflawni'r lefel ddisgwyliedig mewn ysgrifennu Saesneg wedi bod yn is dros gyfnod na chyfartaledd y teulu, ac eithrio yn 2013.

Mae cyflawniadau disgyblion ar lefel 6 neu uwch yn y pynciau craidd yn gyffredinol o gwmpas neu'n uwch na chyfartaleddau'r teulu dros y blynyddoedd diwethaf. Ar lefel 7 neu uwch, mae perfformiad gan mwyaf wedi bod yn arwyddocaol uwch na chyfartaleddau'r teulu a Chymru dros gyfnod.

O gymharu ag ysgolion tebyg o ran hawl i brydau ysgol yn ddi-dâl, mae perfformiad yr ysgol yn y dangosydd pynciau craidd wedi gosod yr ysgol ymhlith y 25% uchaf mewn tair o'r pum mlynedd ddiwethaf. Yn y pynciau craidd yn unigol, bu perfformiad gan mwyaf yn y 50% uwch. Yn y pynciau eraill, bu perfformiad dros gyfnod yn aml naill ai yn y 50% uwch neu'r 25% uchaf.

Nid oes data terfynol wedi ei wirio ar gyfer cyfnod allweddol 4 yn 2013. Yng nghyfnod allweddol 4, mae canran y disgyblion sy'n cyrraedd y trothwy lefel 2 yn cynnwys Cymraeg neu Saesneg, a mathemateg, ynghyd â'r dangosydd pynciau craidd wedi bod yn uwch na chyfartaleddau Cymru ac o gwmpas neu'n uwch na chyfartaleddau'r teulu dros gyfnod, ac yn uwch na'r disgwyliadau. Bu patrwm tebyg yn y trothwy lefel 2. Mae cyflawniadau ar y trothwy lefel 1 wedi bod gan mwyaf yn is na ffigyrau'r teulu a Chymru dros y pedair blynedd ddiwethaf. Mae'r sgôr bwyntiau cyfartalog wedi ei chapio ychydig is na ffigwr y teulu ac yn is na disgwyliadau o ystyried lefelau prydau ysgol yn ddi-dâl a chyflawniadau ar ddiwedd cyfnodau allweddol blaenorol.

Mae canran y disgyblion sydd wedi cyrraedd trothwy lefel 2, gan mwyaf, yn agos i neu'n uwch na ffigyrau'r teulu mewn Saesneg a gwyddoniaeth ac yn enwedig yn y Gymraeg, ond gan mwyaf yn is na ffigyrau'r teulu mewn mathemateg.

O gymharu ag ysgolion tebyg o ran hawl i brydau ysgol yn ddi-dâl, mae perfformiad yr ysgol dros gyfnod yng nghyfnod allweddol 4 wedi ei gosod yn y 50% uwch neu'r 25% uchaf yn y prif ddangosyddion perfformiad. Mae perfformiad ar y trothwy lefel 1 ymhlith y 25% isaf mewn tair o'r pedair blynedd ddiwethaf. Mae'r cyflawniadau ar y trothwy lefel 2 mewn mathemateg yn y 50% is mewn tair o'r pedair blynedd ddiwethaf.

Mae canlyniadau heb eu dilysu 2013 yn dangos patrwm o gynnydd arwyddocaol ar sail perfformiad blynyddoedd blaenorol mewn sawl dangosydd, yn cynnwys y trothwy Lefel 1.

Dros y blynyddoedd diwethaf, mae cyflawniadau'r grŵp disgyblion â'r hawl i brydau ysgol di-dâl wedi bod yn arwyddocaol is na chyflawniadau gweddill y garfan yn y dangosydd pynciau craidd yng nghyfnod allweddol 3 ac yn y prif ddangosyddion yng nghyfnod allweddol 4.

Nid oes bwllch arwyddocaol rhwng cyflawniadau'r bechgyn a'r merched.

Yn y chweched dosbarth, roedd canran y disgyblion yn cyrraedd trothwy lefel 3 yn 2012 yn debyg i gyfartaledd Cymru a'r awdurdod lleol. Roedd sgôr bwyntiau gyfartalog y disgyblion yn is na ffigurau Cymru a'r awdurdod lleol yn 2012, ond yn cymharu'n ffafriol dros gyfnod o dair blynedd.

## Atodiad 2

### Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

### Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

### Arolwg Uwchradd (Pob Disgybl)

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

	Number of responses Nifer o ymatebion	Strongly Agree Cytuno'n gryf	Agree Cytuno	Disagree Anghytuno	Strongly disagree Anghytuno'n gryf	
I feel safe in my school	133	104 78%	26 20%	2 2%	1 1%	Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol.
		42%	53%	4%	1%	
The school deals well with any bullying	133	57 43%	63 47%	11 8%	2 2%	Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio.
		25%	58%	14%	3%	
I have someone to talk to if I am worried	133	81 61%	48 36%	3 2%	1 1%	Mae gen i rywun i siarad ag ef/â hi os ydw i'n poeni.
		37%	53%	8%	1%	
The school teaches me how to keep healthy	133	45 34%	83 62%	4 3%	1 1%	Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach.
		23%	57%	18%	3%	
There are plenty of opportunities at school for me to get regular exercise	133	78 59%	49 37%	6 5%	0 0%	Mae digonedd o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd.
		45%	45%	8%	1%	
I am doing well at school	133	70 53%	61 46%	2 2%	0 0%	Rwy'n gwneud yn dda yn yr ysgol.
		31%	63%	5%	1%	
The teachers help me to learn and make progress and they help me when I have problems	133	86 65%	46 35%	1 1%	0 0%	Mae'r athrawon yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd ac maent yn fy helpu pan fydd gen i broblemau.
		38%	56%	6%	1%	
My homework helps me to understand and improve my work in school	133	54 41%	64 48%	12 9%	3 2%	Mae fy ngwaith cartref yn fy helpu i ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol.
		20%	54%	21%	5%	
I have enough books and equipment, including computers, to do my work	133	75 56%	54 41%	4 3%	0 0%	Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith.
		45%	47%	7%	1%	
Pupils behave well and I can get my work done	133	18 14%	104 78%	10 8%	1 1%	Mae disgyblion eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith.
		10%	57%	28%	6%	



	Number of responses Nifer o ymatebion	Strongly Agree Cytuno'n gryf	Agree Cytuno	Disagree Anghytuno	Strongly disagree Anghytuno'n gryf	
Staff treat all pupils fairly and with respect	133	74 56%	50 38%	7 5%	2 2%	Mae staff yn trin pob disgybl yn deg ac yn dangos parch atynt.
		28%	51%	17%	5%	
The school listens to our views and makes changes we suggest	133	43 32%	77 58%	12 9%	1 1%	Mae'r ysgol yn gwrandao ar ein barn ac yn gwneud newidiadau rydym ni'n eu hawgrymu.
		15%	54%	26%	5%	
I am encouraged to do things for myself and to take on responsibility	133	87 65%	42 32%	4 3%	0 0%	Rwy'n cael fy annog i wneud pethau drosaf fy hun a chymryd cyfrifoldeb.
		33%	61%	5%	1%	
The school helps me to be ready for my next school, college or to start my working life	133	82 62%	48 36%	3 2%	0 0%	Mae'r ysgol yn helpu i mi fod yn barod ar gyfer fy ysgol nesaf, y coleg neu i ddechrau fy mywyd gwaith.
		36%	55%	8%	1%	
The staff respect me and my background	133	99 74%	31 23%	3 2%	0 0%	Mae'r staff yn fy mharchu i a'm cefndir.
		36%	54%	8%	2%	
The school helps me to understand and respect people from other backgrounds	131	84 64%	45 34%	1 1%	1 1%	Mae'r ysgol yn helpu i mi ddeall a pharchu pobl o gefndiroedd eraill.
		35%	57%	7%	1%	
Please answer this question if you are in Year 10 or Year 11: I was given good advice when choosing my courses in key stage 4	49	26 53%	20 41%	2 4%	1 2%	Atebwch y cwestiwn hwn os ydych ym Mlwyddyn 10 neu Flwyddyn 11: Cefais gyngor da wrth ddewis fy nghyrsiau yng nghyfnod allweddol 4.
		28%	52%	15%	5%	
Please answer this question if you are in the sixth form: I was given good advice when choosing my courses in the sixth form	25	11 44%	10 40%	3 12%	1 4%	Atebwch y cwestiwn hwn os ydych chi yn y chweched dosbarth: Cefais gyngor da wrth ddewis fy nghyrsiau yn y chweched dosbarth.
		27%	50%	16%	7%	

## ateb i'r holiadur i rieni

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

	Number of responses Nifer o ymatebion	Strongly Agree Cytuno'n gryf	Agree Cytuno	Disagree Anghytuno	Strongly disagree Anghytuno'n gryf	Don't know Ddim yn gwybod	
Overall I am satisfied with the school.	78	36 46%	33 42%	6 8%	2 3%	1	Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol.
		43%	51%	4%	1%		
My child likes this school.	79	50 63%	27 34%	1 1%	1 1%	0	Mae fy mhlentyn yn hoffi'r ysgol hon.
		46%	48%	4%	1%		
My child was helped to settle in well when he or she started at the school.	79	44 56%	31 39%	1 1%	2 3%	1	Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol.
		49%	45%	3%	1%		
My child is making good progress at school.	78	36 46%	32 41%	6 8%	2 3%	2	Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol.
		44%	48%	4%	1%		
Pupils behave well in school.	78	24 31%	38 49%	8 10%	1 1%	7	Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol.
		21%	55%	11%	3%		
Teaching is good.	77	18 23%	45 58%	12 16%	2 3%	0	Mae'r addysgu yn dda.
		33%	58%	4%	1%		
Staff expect my child to work hard and do his or her best.	79	38 48%	32 41%	7 9%	2 3%	0	Mae'r staff yn disgwyl i fy mhlentyn weithio'n galed ac i wneud ei orau.
		50%	46%	2%	0%		
The homework that is given builds well on what my child learns in school.	79	27 34%	34 43%	11 14%	5 6%	2	Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhlentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol.
		31%	54%	8%	2%		
Staff treat all children fairly and with respect.	78	28 36%	38 49%	5 6%	1 1%	6	Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch.
		32%	49%	9%	2%		
My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise.	78	30 38%	36 46%	6 8%	0 0%	6	Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd.
		33%	54%	7%	1%		
My child is safe at school.	79	39 49%	40 51%	0 0%	0 0%	0	Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn yr ysgol.
		40%	53%	3%	1%		
My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs'.	72	22 31%	28 39%	4 6%	2 3%	16	Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol.
		31%	47%	7%	2%		

	Number of responses Nifer o ymatebion	Strongly Agree Cytuno'n gryf	Agree Cytuno	Disagree Anghytuno	Strongly disagree Anghytuno'n gryf	Don't know Ddim yn gwybod	
I am kept well informed about my child's progress.	76	26 34%	35 46%	9 12%	3 4%	3	Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn.
		33%	50%	11%	2%		
I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem.	78	38 49%	26 33%	9 12%	3 4%	2	Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem.
		41%	49%	6%	2%		
I understand the school's procedure for dealing with complaints.	77	31 40%	33 43%	5 6%	1 1%	7	Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion.
		27%	51%	10%	2%		
The school helps my child to become more mature and take on responsibility.	78	29 37%	40 51%	2 3%	2 3%	5	Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb.
		35%	54%	5%	1%		
My child is well prepared for moving on to the next school or college or work.	76	18 24%	28 37%	6 8%	3 4%	21	Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith.
		26%	47%	8%	2%		
There is a good range of activities including trips or visits.	78	25 32%	46 59%	3 4%	3 4%	1	Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau.
		35%	50%	9%	2%		
The school is well run.	78	32 41%	30 38%	5 6%	3 4%	8	Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda.
		40%	49%	5%	2%		

## Atodiad 3

### Y tîm arolygu

Iolo Dafydd	Arolygydd Cofnodol
Ray Owen	Arolygydd Tîm
Gareth Wyn Jones	Arolygydd Tîm
Simon Davies	Arolygydd Tîm
Glenda Jones	Arolygydd Lleyg
Michael Davies	Arolygydd Cymheiriaid
Gwyn Tudur	Enwebai

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn ([www.estyn.gov.uk](http://www.estyn.gov.uk))

### Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

Blwyddyn	Meithrin	Derbyn	B1	B2	B3	B4	B5	B6
Oedrannau	3-4	4-5	5-6	6-7	7-8	8-9	9-10	10-11

Cyfnod uwchradd:

Blwyddyn	B7	B8	B9	B10	B11	B12	B13
Oedrannau	11-12	12-13	13-14	14-15	15-16	16-17	17-18

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

Cyfnod Sylfaen	Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2
Cyfnod allweddol 2	Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6
Cyfnod allweddol 3	Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9
Cyfnod allweddol 4	Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11

## Rhestr termau

Dangosydd pwnc craidd (DPC)	Mae hyn yn ymwneud â'r perfformiad disgwylidig mewn Cymraeg neu Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth, sef pynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol.
Teuluoedd o ysgolion	Crëwyd y rhain i alluogi ysgolion i gymharu eu perfformiad â pherfformiad ysgolion tebyg ledled Cymru. Mae teuluoedd yn cynnwys ysgolion sydd â chyfrannau tebyg o ddisgyblion y mae ganddynt hawl i gael prydau ysgol am ddim, sy'n byw yn yr 20% o ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru, sydd ag anghenion addysgol arbennig ac ar gynllun Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy neu ar ddatganiad ac y mae Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt a'u caffaeliad yn llai na chymwys.
Lefel 1	Mae hyn yn gyfwerth â TGAU gradd D i G.
Trothwy Lefel 1	Mae hyn yn golygu dysgu sy'n gyfwerth â phump TGAU graddau D i G.
Lefel 2	Mae hyn yn gyfwerth â TGAU gradd A* i C.
Trothwy Lefel 2 yn cynnwys Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf a mathemateg	Mae hyn yn golygu dysgu sy'n gyfwerth â phump TGAU graddau A* i C yn cynnwys Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf a mathemateg.
Trothwy Lefel 2	Mae hyn yn golygu dysgu sy'n gyfwerth â phump TGAU graddau A* i C.
Lefel 3	Mae hyn yn gyfwerth â Safon Uwch gradd A* - E.
Trothwy Lefel 3	Mae hyn yn golygu dysgu sy'n gyfwerth â dwy Safon Uwch graddau A* i E.
Sgôr pwyntiau cyfartalog ehangach	Mae hwn yn cynnwys yr holl gymwysterau a gymeradwywyd i'w defnyddio yng Nghymru yn yr oed perthnasol, er enghraifft, yn 16 neu'n 18 oed.
Sgôr pwyntiau ehangach wedi'i gapio	Mae hwn yn cynnwys yr wyth canlyniad gorau o'r holl gymwysterau a gymeradwywyd i'w defnyddio yng Nghymru yn 16 oed.
Setiau Data Craidd Cymru Gyfan	Gall ysgolion ac awdurdodau lleol gyfeirio at berfformiad o gymharu â'u teulu o ysgolion. Crëwyd y teuluoedd hyn o ysgolion i alluogi ysgolion gymharu'u perfformiad ag ysgolion

	<p>tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae teuluoedd yn cynnwys ysgolion â chyfrannau tebyg o ddisgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, disgyblion sy'n byw yn 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru, disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad, a disgyblion sy'n llai na chymwys o ran dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.</p>
--	---